

Tŷ Agored

Rhifyn 2 2019 Y Cylchgrawn ar gyfer **Tenantiaid a Lesddeiliaid y Cyngor**



Cyfeiriad dychwelyd: Dinas a Sir Abertawe, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

ERTHYGLAU

Ffocws ar... Tîm Rhagor o Gartrefi	1
Canmlwyddiant	2
Abertawe 50	4
Dewch Ar-lein Abertawe	6
Digwyddiadau yn eich ardal	7

CYSYLLTIADAU LLEOL

Llyfregelloedd	8
----------------------	---

TENANTIAETHAU A STADAU

Llais y Tenantiaid	10
Newyddion Tai Lloches	12
Sut hoffech chi dderbyn Tŷ Agored?	13
HomeSwapper	14
Llywodraeth Cymru'n dod â'r Hawl i Brynu i ben yng Nghymru	16
Newidiadau i reolaeth eiddo Grŵp Tai Coastal	16
Yn galw ar denantiaid a lesddeiliaid!	
Ymunwch â'n grŵp Facebook!	17
Rheoli stadau	17
Mwy o dai cyngor newydd ar y gweill	18
Clwb Trefansel i bobl dros 65 oed	20
Y Diweddaraf am Ymweliad Arolygu Swyddfa Archwilio Cymru ...	21
Diweddariad ar Safon Ansawdd Tai Cymru	22
Pwls Tenantiaid	23
Dulliau talu rhent	24
Gwasanaethau cefnogi	25

CYNGOR CYFFREDINOL

Cynllun Preswyllo'n ddiogel i Ddinasyddion yr UE	26
Crimestoppers	27
Byddwch yn Ymwybodol o Sgiamiau ...	28
Oes angen help arnoch gyda'ch rhent?	29
Caffi Dros Dro a Siop dan yr Unto Gorseinon	30
Gwybodaeth Ailgyrchu	30

CYDRADDOLDEB

Tŷ T.O.P.I.C.	34
Allwn ni eich helpu?	34

MAE'R HOLL WYBODAETH YNG NGHYLCHGRAWN Tŷ AGORED YN GYWIR WRTH FYND I'R WASG.

Croeso i Tŷ Agored

Croeso i'r rhifyn hwn o Tŷ Agored. Gobeithio y gwelwch ei fod yn llawn cyngor a gwybodaeth ddefnyddiol ond os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer erthyglau yn y dyfodol, rhowch wybod i ni.

Yn y rhifyn hwn rydym wedi cynnwys rhai erthyglau rydym yn gobeithio y byddant o ddiddordeb i chi, fel hanes tai cyngor yn Abertawe. Mae eleni'n nodi canmlwyddiant digwyddiad hollbwysig yn hanes tai ym Mhrydain (rhagor o fanylion ar dudalen 2) a hefyd mae Abertawe'n dathlu ei 50 mlwyddiant ar ôl dod yn ddinas ym 1969 (tudalen 3). Bydd y dathliadau ar gyfer hyn yn parhau drwy gydol y flwyddyn.

Rydym newydd ddechrau ein grŵp Facebook newydd ein hun ar gyfer Tai Cyngor, felly os oes diddordeb gennych, trowch i dudalen 17 i gael gwybod sut i ymuno. Ceir gwybodaeth ddefnyddiol yno i denantiaid a lesddeiliaid yn ogystal â manylion cyfleoedd i chi gyfrannu.

Os oes diddordeb gennych yn ein rhaglen tai newydd, mae diweddariad ar gael ar dudalen 18 lle gallwch weld ein cynlluniau ar gyfer tai cyngor effeithlon a modern.

Yn olaf, os yw'n well gennych ddarllen Tŷ Agored ar-lein yn lle derbyn copi papur, rhowch wybod i ni.

Mae **Tŷ Agored** hefyd ar gael i'w ddarllen yn
📄 www.abertawe.gov.uk/tai

Rachel Cole, Golygydd

Cysylltiadau Defnyddiol

Golygydd - Rachel Cole	☎ 635045
Canolfan Gyswilt Atgyweiriadau	☎ 635100
Atgyweiriadau Brys y tu allan i Oriau Swyddfa	☎ 521500
Uned Cefnogi Cymdogaethau 24 awr	☎ 648507
Opsynau Tai	☎ 533100
Canolfan Gyswilt yr Amgylchedd	☎ 635600
Ymholiadau Budd-dal Tai	☎ 635353

Rhifau Swyddfeydd Tai Rhanbarthol

Swyddfa Dai Ranbarthol Eastside	☎ 791251
Swyddfa Dai Ranbarthol Treforys a'r Clâs	☎ 601720
Swyddfa Dai Ranbarthol Sgeti	☎ 516810
Swyddfa Dai Ranbarthol Townhill a Mayhill	☎ 513900
Swyddfa Dai Ranbarthol Blaen-y-maes	☎ 534060
Swyddfa Dai Ranbarthol Gorseinon	☎ 897700
Swyddfa Dai Ranbarthol Penlan	☎ 582704
Swyddfa Dai Ranbarthol Canol y Dref	☎ 650486
Swyddfa Dai Ranbarthol West Cross	☎ 402500

Mae pob rhif ffôn yn Abertawe (01792)

Cyfeiriadau E-bost Swyddfeydd Tai Rhanbarthol

- ✉ SwyddfaDaiRanbartholBlaenymaes@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholEastside@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholGorseinon@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholTreforys@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholPenlan@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholSgeti@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholTownhill@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholCanolyDref@abertawe.gov.uk
- ✉ SwyddfaDaiRanbartholWestCross@abertawe.gov.uk

Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat arall e.e. print bras, Braille, disg neu ddull arall, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai ☎ 01792 635045 neu ewch i'n gwefan

📄 www.abertawe.gov.uk/tai neu e-bostiwch ✉ tai@abertawe.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

Ffocws ar...

Mae'r tîm Rhagor o Gartrefi'n rhar o'r Is-adran Tai Strategol a leolir yr y Ganolfan Ddinesig.



Mae'r tîm yn cynnwys Carol Morgan, Rheolwr Datblygu Rhagor o Gartrefi, Tim Padfield, Swyddog Rhagor o Gartrefi, Patrick Holcroft, Swyddog Effeithlonrwydd Ynni, Jill Goddard, Uwch-swyddog Galluogi Datblygiad a Julie Adair, Swyddog Galluogi Cefnogi.



Mae'r tîm Rhagor o Gartrefi'n arwain agweddau tai ar y rhaglen datblygu Tai Cyngor newydd, darparu tai fforddiadwy ar draws y ddinas, ac mae'n gyfrifol am roi cyngor ar ynni i denantiaid y Cyngor a'r sector preifat, yn ogystal â chwilio am gyfleoedd newydd am gynlluniau ynni a thechnolegau newydd.

Ym mis Ionawr 2018, adeiladwyd y tai cyngor newydd cyntaf ar Colliers Way. Adeiladwyd y tai hyn trwy ddilyn safonau Passivhaus trwy'r Gwasanaethau Adeiladau er mwyn sicrhau bod y cartrefi'n effeithlon iawn o ran ynni, gan leihau costau ynni i'r tenantiaid o ganlyniad.

Mae gwaith adeiladu newydd ddechrau ar 2 safle ychwanegol gydag 16 o dai ym Mharc yr Helyg, Gellifedw, ac 18 o dai ychwanegol fel rhan o gam 2 Colliers Way. Bydd y cartrefi hyn yn Gartrefi fel Gorsafoedd Pŵer oherwydd grant Cynllun Tai Arloesol gwerth £1.5m gan Lywodraeth Cymru. Bydd y grant tai arloesol yn ariannu gwaith gosod technolegau newydd megis toeon solar integredig, storio ynni mewn batris a phymptiau gwres o'r ddaear. Ni fydd gan yr eiddo gyflenwad nwy traddodiadol, a byddant yn cynhyrchu ac yn storio ynni, gan leihau costau ynni ar gyfer y tenantiaid a fydd yn byw ynddynt. Gwasanaethau Adeiladau sydd hefyd yn adeiladu'r tai hyn trwy ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol.

Mae cynllun ychwanegol hefyd yn yr arfaeth yn ardal y Clâs i adeiladu 25 o gartrefi teulu newydd ynghyd ag ysgol gynradd Gymraeg newydd. Disgwylir i'r

cynllun symud ymlaen i'r cam cyflwyno cais cynllunio yn haf 2019. Byddai'r cartrefi hyn hefyd yn cael eu hadeiladu fel Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer, gyda thoeon solar a'r dechnoleg i storio ynni mewn batris. Mae'r tîm hefyd yn gweithio ar brosiect trawsnewid a fydd yn troi un o hen adeiladau'r y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2 gartref teulu yn West Cross.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Pensaerniaeth Cymru i ôl-osod technoleg adnewyddadwy mewn 6 byngalo yng Nghraig-cefn-parc. Bydd y gwaith yn cynnwys inswleiddio waliau allanol, pymptiau gwres o'r ddaear, toeon solar PV a storio ynni mewn batris. Mae'r byngalos yn ddrud i'w gwresogi ar hyn o bryd, ond byddant yn cael eu troi'n gartrefi modern ac effeithiol iawn o ran ynni gan leihau costau ynni'n sylweddol ar gyfer y tenantiaid. Rheolir y gwaith hwn gan y Gwasanaethau Adeiladau hefyd, a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd haf 2019.

Mae'r tîm hefyd yn cefnogi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lleol megis Pobl, Grŵp Tai Coastal, Cymdeithas Tai Teuluoedd a Chymdeithas Tai Dewis Cyntaf i ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle mae angen tai trwy ddyrannu Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Eleni, clustnododd y tîm £6.9 miliwn o gyllid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig adeiladu tai fforddiadwy ar draws Abertawe. Ymhlith yr enghreifftiau o gynlluniau a gwblhawyd trwy ddefnyddio'r grant hwn mae:

- fflatiau Urban Quarter Grŵp Tai Coastal ar y Stryd Fawr;
- Pentref Pobl Hŷn Cymdeithas Tai Teuluoedd, Hazel Court, yn Sgeti;
- Datblygiad Pobl ar hen safle Ysbyty Coffa Clydach;
- Adleoli Llys Dewi Sant o safle Dewi Sant i hen safle'r Vetch;

Chymdeithas Tai Dewis Cyntaf, sy'n darparu cartrefi â chymorth arbenigol ar draws Abertawe.

Fel rhan o'r broses gynllunio, mae'r fîm yn cynnal trafodaethau â datblygwyr i ddarparu tai fforddiadwy mewn datblygiadau tai. Rheolir y tai fforddiadwy hyn naill ai gan y Cyngor neu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Lleol. Gellir gwerthu'r tai fforddiadwy a ddarperir, neu eu rhentu'n gymdeithasol. Cedwir cofnod o'r bobl a hoffai wybod pan fydd tai fforddiadwy ar werth ac ar gael yn eu dewis ardal.

Mae'r fîm yn ymdrin ag ymholiadau ynghylch tir sy'n eiddo i'r Adran Tai. Gall hyn gynnwys anheddu anghyfreithlon, gwerthu, caniatáu trwyddedau i ddefnyddio tir yr Adran Tai neu gael caniatâd i groesi'r tir. Rydym yn cysylltu â'r Swyddfa Dai Ranbarthol, adrannau eraill a Phennaeth yr Adran Tai i benderfynu ar y canlyniad.

Mae Patrick Holcroft yn arwain Is-adran Ynni'r Adran Tai, sy'n cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i

ganolbwyntio ar bobl ddiameddifyn mewn perygl o dlodi tanwydd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae hyn yn diogelu tai rhag prisiau ynni cynyddol yn y dyfodol, yn lleihau allyriadau ac yn helpu pobl i gadw'n gynnes ac yn iach. Mae'n cynnig cyngor i denantiaid y Cyngor a'r sector preifat.

O fis Hydref 2008 roedd yn ofynnol i ddarparu Tystysgrifau Perfformiad Ynni (TPY) ar gyfer unrhyw eiddo cyn iddo gael ei roi ar werth neu ar osod. Ers hyn gael ei gyflwyno, lluniwyd mwy na 6,000 TPY ar gyfer stoc y Cyngor. Defnyddir yr wybodaeth hon i roi gwybodaeth i denantiaid cyn iddynt symud i mewn ond hefyd er mwyn i'r gwaith ynni ganolbwyntio ar eiddo penodol, megis inswleiddio llofftydd.

Rhan o rôl yr Is-adran yw cael mynediad at gyllid ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat; mae wedi llwyddo i ennill cymorthdaliadau gan yr cwmnïau cyfleustodau ar gyfer gwaith sy'n berthnasol i ynni ac ar hyn o bryd mae'n rhan o ymarfer caffael i gael mynediad at y ffurf ddiweddaraf ar ECO (Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni) ac ECO Flex. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon ar hyn o bryd i helpu gyda cham diweddaraf y cynllun ARBED, sef un o fentrau Llywodraeth Cymru y mae ei nod yn debyg i ECO.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y fîm Rhagor o Gartrefi ffoniwch Carol/Tim/Jill/Julia ar ☎ **01792 635047** neu ffoniwch Patrick ar ☎ **01792 635318**.

Canmlwyddiant

Mae eleni'n nodi canmlwyddiant ers digwyddiad allweddol yn hanes tai ym Mhrydain sy'n haeddu dathliad eang. Lluniwyd Deddf Tai 1919 (Deddf Addison) i gyflawni addewid Lloyd George (cyn-Brif Weinidog) i ddarparu cartrefi ar gyfer milwyr, morwyr a gweithwyr arfau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Ni ddywedodd yr union eiriau, "cartrefi teilwng i arwyr" mewn gwirionedd ond adeiladwyd 213,000 o gartrefi cyn i gyllid gan y Trysorlys ddod i ben ym 1921. Gellir gweld y canlyniadau o hyd mewn trefi a dinasoedd ar draws y wlad lle ceir tai eang sydd wedi'u dylunio'n dda, a chreodd y ddeddf, a lluniwyd gan y Gweinidog lechyd Christopher Addison, etifeddiaeth ar gyfer y dyfodol a aeth y tu hwnt i'r cartrefi eu hunain.

Sefydlodd Deddf Addison egwyddorion ar gyfer tai cyngor gan wneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu'r angen am dai yn lleol a'r offer a'r adnoddau i ymdrin ag ef. Roedd Cynghorau, megis Abertawe, wedi bod yn adeiladu tai ar sail ddewisol ers y 1860au. O dan Ddeddf Tai 1919, cododd Cynghorau geiniog ar y cyfraddau a gwnaeth y Trysorlys gwrdd â gweddill y costau cychwynnol mewn benthyciadau i'w had-dalu o'r rhenti.



Teras Colbourne

Creodd Cyngor Abertawe Adran Tai ym 1902 ac Adran Ystadau ym 1904. Roedd ei ymdrechion cychwynnol yn bwyllogor – wedi'u cyfyngu i dai mewnlenni, yn cyd-fynd â gwaith adeiladu tybiannol presennol ac yn edrych, ar yr olwg gyntaf, yn debyg iddo.

Ym 1905, dechreuodd gwaith adeiladu ar raddfa fach yn Waun Wen ac ar Deras Colbourne, ac o ganlyniad i lwyddiant cychwynnol y cynllun, cynlluniodd y Cyngor stad o 142 o dai yn ardal gyfagos Baptist Well.

Adeiladwyd rhagor o dai yn Mayhill ym 1910 ac yn Townhill ym 1914.



Bythynnod arddangos yng Nghylch Llewellyn



Adeiladwyd cyfanswm o 425 o dai yn Townhill o dan Ddeddf Tai 1919 Christopher Addison. Erbyn 1939, roedd y fwrdeistref wedi adeiladu rhyw 4,000 o gartrefi newydd. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn berchen ar ychydig dros 13,500 o gartrefi ac yn eu rheoli.

Ar ôl iddo gael ei rwystro rhag adeiladu am lawer o flynyddoedd, yn fwy diweddar mae'r Cyngor wedi

dechrau adeiladu o'r newydd ac wedi adeiladu 18 eiddo newydd sydd wedi'u dylunio i fodloni safonau Passivhaus. Mae hynny'n golygu bod yr eiddo'n effeithlon dechrau adeiladu o'r newydd thermol ac y bydd angen ychydig iawn o wres ychwanegol arnynt. Dyluniwyd yr eiddo hefyd i fodloni Safonau Cartrefi Gydol Oes i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion preswylwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Meddai Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni, "Yn Abertawe, rydym yn arwain y ffordd o ran creu cartrefi cyngor newydd i denantiaid. Ers penderfynu creu cartrefi newydd, rydym wedi edrych ar y mathau o gartrefi y gellir eu datblygu gan ystyried y costau i denantiaid ar gyfer ffynonellau gwres a phŵer.

"Mae arloesedd wedi bod wrth wraidd yr cartrefi newydd rydym wedi'u cwblhau yn Colliers Way – gan alluogi'r tenantiaid i fyw mewn eiddo rhad-ar-ynni lle gallant reoli'n well faint o ynni y maent yn ei ddefnyddio.

"Bydd gennym ymagwedd debyg at y cartrefi y byddwn yn eu datblygu yn y dyfodol ym Mharc yr Helyg, a'r ail ran o Colliers Way lle bydd tai'n cynhyrchu eu hynni eu hunain o'r haul."

Mae cynlluniau i adeiladu llawer mwy o gartrefi newydd yn y blynyddoedd i ddod ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2019, cymeradwyodd y Cabinet gynllun datblygu Cyfrif Refeniw Tai'r Cyngor, a amlinellodd sut a ble yr adeiladir y cartrefi newydd hyn yn Abertawe.

Colliers Way



1969-2019

50

Abertawe
1969-2019

Abertawe'n dathlu'r 50 Y dref hyll, hyfryd a ddaeth yn ddinas

Ar 3 Gorffennaf 1969, cyhoeddodd y Tywysog Charles, yn ystod taith o Gymru i ddathlu blwyddyn ei arwisgiad y byddai Abertawe'n dod yn ddinas.

Abertawe oedd yr ail dref yng Nghymru i dderbyn statws dinas, ond bu'n rhaid iddi aros tan 15 Rhagfyr i dderbyn ei breintlythyr yn ffurfiol oddi wrth y Frenhines. Ar y diwrnod hwnnw, dychwelodd Tywysog Cymru i'r ddinas newydd i roi'r siarter i bobl a phwysigion dinesig Abertawe yn Neuadd Brangwyn.

Mae digwyddiadau mawr a dathliadau cymunedol wedi eu trefnu i helpu'r ddinas i wneud 2019 yn flwyddyn i'w chofio.

Meddai Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe, "Mae Abertawe'n ddinas Gymreig wych ac mae gennym gymaint i'w ddathlu ac i edrych ymlaen ato. Roedd 1969 yn achlysur arbennig pan roddodd y Frenhines statws dinas i Abertawe'n swyddogol ac mae 2019 yn argoeli bod yr un mor gyffrous. Diolch i'r cannoedd ar filoedd o bunnoedd a gaiff eu buddsoddi yn ein dinas drwy'r Fargen Ddinesig, mae'n amser gwych i ni edrych ymlaen at ein dyfodol a dathlu'n gorffennol. Rydym am i bob cymuned yn Abertawe gymryd rhan a threfnu eu dathliadau eu hunain ynghyd â mwynhau'r digwyddiadau mawr rydym wedi'u cynllunio."

Meddai Robert Francis-Davies, Aelod y Cabinet

dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth, "Dyma amser gwych i ni ddathlu treftadaeth ein dinas a'i dyfodol.

"Fel rhan o'r dathliadau, byddwn yn cynnal pleidlais gyhoeddus i ddewis arwr mwyaf Abertawe erioed. Ar ben hynny, bydd digwyddiadau gwych drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys perfformiadau cerddorol gan Stereophonics, Jess Glynne a Pete Tong ym Mharc Singleton. Ond y rhan bwysicaf yw ein gwahoddiad i bobl Abertawe gymryd rhan yn y dathliadau drwy drefnu eu digwyddiadau eu hunain, boed hynny'n garnifal lleol, yn sioe gymunedol neu'n barti stryd. Yn anad dim, dylai Abertawe 50 fod yn ddathliad o Abertawe gan bobl Abertawe ar gyfer pobl Abertawe. Gall pawb fod yn rhan ohono."

Bu ymgais Abertawe i gael statws dinas yn un hir, gan ddechrau ym 1911, gyda deiseb gan hen Gorfforaeth Abertawe.

Ond ar ddechrau'r 1960au, dyma ymgyrch newydd dros gael statws dinas yn dechrau.

Soniodd erthygl yn y *Western Mail* ar 17 Tachwedd 1961, am araith y Maer, yr Henadur Percy Morris,



i'r Cyngor. Roedd Cadeirydd Bwrdd Croeso Cymru, Dr Huw T Edwards, wedi dweud wrth yr Henadur Morris ei bod yn hen bryd i Abertawe gael ei gwneud yn ddinas ac y dylai'r Cyngor gyflwyno cais.

Meddai Dr Edwards ar y pryd, "Roedd stori fendigedig Abertawe, ei dinistriad yn ystod y rhyfel a'i hatgyfodiad, yn destun balchder i Gymru gyfan."

Ym 1963, cyflwynodd y Maer newydd, Fred Shall, gais am statws dinas bron cyn gynted ag y cafodd ei ethol.

Meddai, "Ni waeth pa feini prawf a gaiff eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid rhoi statws dinas i dref – oed, hanes, hoffter o ddiwylliant, maint, pwysigrwydd – byddai rhoi statws dinas i Abertawe'n gam hollol deg."

Parhaodd yr ymgyrch tan gyhoeddiad y Tywysog 50 mlynedd yn ôl, pan gymeradwywyd ef yn strydoedd Abertawe.

Ond mae'r hanesydd diwylliannol, Peter Stead,

sydd wedi ymgartrefu yn Abertawe, yn credu nad yw'r ddinas wedi sôn ddigon ei rhinweddau na'i chyflawniadau.

"Mae'r ddinas mewn lleoliad gwych ac mae ei hanes yn gyfoethog," meddai.

"Nid ydym wedi gwneud cyfiawnder â'r pethau hynny ac nid gwneud cyfiawnder â'r wedi defnyddio doniau'r holl bobl ddawnus sy'n byw yn y ddinas ddiddorol hon sy'n gallu eich gwyltio hefyd chwaith."

Ond mae'n credu bod gan Abertawe hyder newydd sy'n amlygu'i hun ym maes diwylliant.

Ychwanegodd, "Mae'n parhau'n gartref i gerddorion ifanc, corau, artistiaid, beirdd, nofelwyr, actorion ac athletwyr."

I nodi 50 mlynedd ers y cyhoeddiad nodedig, mae Cyngor Abertawe'n trefnu cyfres o ddiwyddiadau i ddathlu'r pen-blwydd arbennig hwn yn ystod yr haf. Fel arall, efallai y byddwch am drefnu'ch parti stryd eich hun i ddathlu'r achlysur.

Ceir manylion y digwyddiadau a gynhelir yn Abertawe neu wybodaeth am sut i drefnu'ch digwyddiad eich hun yn: www.abertawe50.co.uk

Am ddysgu sut mae gwneud yn fawr o'r rhyngwyd? Dyw hi byth yn rhy hwyr i ddysgu!

GET
SWANSEA
ONLINE



DEWCH
AR-LEIN
ABERTAW

Dilynwch y cyrsiau **RHAD AC AM DDIM** i ddechreuwr er mwyn i chi ddod ar-lein

Dysgwch sut mae manteisio i'r eithaf ar y rhyngwyd, anfon e-byst, arbed arian, trefnu gwyliau, syrffio'r we, cyfathrebu â ffrindiau a theulu a llawer mwy.

Cynhelir y sesiynau **RHAD AC AM DDIM** hyn gan diwtor cymwysedig mewn lleoliadau ar draws Abertawe, gan gynnwys llyfrgelloedd ac adeiladau cymunedol.

Bydd pob cwrs yn para 2 awr yr wythnos am 5 wythnos.

Maen nhw i bobl heb unrhyw brofiad, neu sydd â phrofiad cyfyngedig o ddefnyddio cyfrifiaduron, iPads neu dabledi Android i'w helpu i ddod ar-lein.



Gallwch gofrestru ar gyfer un o'r cyrsiau hyn:

1. **Cwrs cyfrifiaduron i ddechreuwr** - rydyn ni'n darparu cyfrifiaduron i'w defnyddio ar gyfer y cwrs
2. **Cwrs Tabledi i Ddechreuwr** - dewch â'ch iPad neu dabled android eich hun i'w ddefnyddio ar y cwrs

I gael gwybodaeth am ddyddiadau, amseroedd a lleoliadau cyrsiau, ffoniwch y Tîm Dysgu Gydol Oes yn Nhŷ Bryn ar

☎ 01792 470171

Fel arall, gofynnwch i rywun gadw lle ar-lein i chi yn

🌐 www.dewcharleinabertawe.co.uk

Digwyddiadau yn eich ardal

Ym mhob rhifyn o 'Tŷ Agored', rydym yn canolbwyntio ar ardal yn Abertawe er mwyn dweud wrthyh am y gweithgareddau a'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yno a fydd efallai o ddiddordeb i chi. Yn y rhifyn hwn, rydym yn cynnwys digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Ngellifedw.

Canolfan Gymunedol Gellifedw

Ceir nifer o grwpiau a digwyddiadau cymunedol yng **Nghanolfan Gymunedol Gellifedw gan gynnwys:**

- Sawl dosbarth crefft ymladd
- Dosbarthiadau ffitrwydd
- Ioga
- Grŵp rhieni a phlant bach
- Grŵp colli pwysau
- Dosbarthiadau cŵn
- Grwpiau eglwysi
- Cymorthfeydd cyngorwyr

Swyddog Datblygu Cymunedol ar gyfer Canolfan Gymunedol Gellifedw: Arron Bevan-John

☎ **01792 635412** ☎ **07796275235** ✉ arron.bevan-john@abertawe.gov.uk

I logi'r ganolfan gymunedol, ffoniwch yr ysgrifennydd llogi ☎ **07900791453**



Pafiliwn Gellifedw

Adeilad cymunedol yw **Pafiliwn Gellifedw** a ddefnyddir gan grwpiau cymunedol, a chynhelir digwyddiadau yno sy'n cynnwys:

- Boreau coffi i'r henoed
- Bingo
- Cwisiau

I drefnu i ymuno â'r grwpiau, ffoniwch Carol Griffiths ☎ **01792 790786**



Sylwer: mae'r holl wybodaeth uchod yn gywir wrth fynd i'r wasg

Cysylltiadau Lleol

Mae Cysylltiadau Lleol yn rhoi gwybodaeth am weithgareddau a gynhelir yn eich ardal. Os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau o'r hyn yr hoffech i ni ei gynnwys, rhowch wybod.

Llyfrgelloedd

Cynhelir lluo o weithgareddau mewn llyfrgelloedd ar draws Abertawe. Dyma rai enghreifftiau o ddiwyddiadau wythnosol a gynhelir mewn llyfrgell sy'n agos atoch chi.

Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan -

 www.abertawe.gov.uk/digwyddiadaurlllyfrgell

Sylwer y gall amserau a digwyddiadau newid. I gael gwybodaeth am ddiwyddiad penodol, cysylltwch â'r llyfrgell unigol sy'n ei gynnal.



Libraries
Llyfrgelloedd

Llyfrgell Gorseion

Boreau Creffus i Oedolion

Grŵp crefft cyfeillgar, difyr ac anffurfiol.

Bob wythnos ar ddydd lau am 90 munud o 10.30am. Mynediad am ddim.

Manylion Cyswllt:

Llyfrgell Gorseion, 15 Stryd y Gorllewin, Gorseion, Abertawe SA4 4AA.

✉ gorseion.library@abertawe.gov.uk ☎ 01792 516780

Llyfrgell Penlan

TG i ddechreuwyr

Sesiwn galw heibio sy'n cynnig cyngor a chymorth.

Bob wythnos ar ddydd Mercher am 2 awr o 9.30am. Mynediad am ddim.

Manylion Cyswllt:

Llyfrgell Pen-lan, Heol Frank, Penlan, Abertawe SA5 9AB.

✉ penlan.library@abertawe.gov.uk ☎ 01792 584674

Llyfrgell Llansamlet

Grŵp Crosio a Gwau

Amgylchedd cyfeillgar i gwrdd â ffrindiau newydd a bod yn greadigol.
Bob wythnos ar ddydd Mercher o 2.00pm. Mynediad am ddim.

Manylion Cyswllt:

Llyfrgell Llansamlet, 242 Heol Peniel Green, Llansamlet, Abertawe SA7 9BD.

✉ llansamlet.library@abertawe.gov.uk ☎ **01792 771652**

Llyfrgell Treforys

Amser Rhigwm i Fabanod

Caneuon a rhigymau gyda phlant bach.
Bob wythnos ar ddydd Mercher am 30 munud o 10.30am. Mynediad am ddim.

Manylion Cyswllt:

Llyfrgell Treforys, Heol Treharne, Treforys, Abertawe SA6 7AA.

✉ morrison.library@abertawe.gov.uk ☎ **01792 516770**

Llyfrgell Ystumllwynarth

Clwb Sgrabl

Os hoffech chi gymryd rhan, gofynnwch i'r staff am fanylion. Rhaid cofrestru oherwydd bod lleoedd yn brin. Bob wythnos ar ddydd Gwener am oddeutu 1 awr o 11.00am. Mynediad am ddim.

Manylion Cyswllt:

Llyfrgell Ystumllwynarth, Lôn Dunns, y Mwmbwls, Abertawe SA3 4AA.

✉ oystermouth.library@abertawe.gov.uk ☎ **01792 368380**

Llyfrgell Sgeti

Ysgrifennu Creadigol

Ymunwch â'r grŵp cyfeillgar hwn.
Bob wythnos ar ddydd Mercher am 1 awr o 2.00pm. Mynediad am ddim.

Manylion Cyswllt:

Llyfrgell Sgeti, Heol Vivian, Sgeti, Abertawe SA2 0UN.

✉ sketty.library@abertawe.gov.uk ☎ **01792 202024**

Sylwer nad oes unrhyw doiledau cyhoeddus yn y llyfrgell.

Llais y Tenantiaid



Helo, fy enw i yw Alison Winter a fi yw'r Swyddog Cyfranogiad. Dyma fy niweddariad rheolaidd am gyfranogiad tenantiaid yn Abertawe, lle dwi'n rhoi newyddion a gwybodaeth i chi am grwpiau lleol a grwpiau ar draws y ddinas a'r sir.



Grwpiau / Digwyddiadau Lleol

Mae **Cymdeithas Preswylwyr Clyne Court** yn parhau i gwrdd yn gyson ac yn trafod y materion sy'n effeithio ar y 3 bloc o fflatiau. Meddai'r Cadeirydd Heather Elphick "Hoffwn annog pob un o breswylwyr Clyne Court i ddod i'n cyfarfodydd.



Rydym yn cael diweddariad gan staff y Swyddfa Dai, cynghorwyr lleol a siaradwr gwadd."

Yn y cyfarfod diwethaf, rhoddodd y PCSO Lleol Fred Lerwell gyflwyniad i gynyddu ymwybyddiaeth o sut i roi gwybod i'r heddlu am weithgarwch amheus. Dywedodd wrth y grŵp hefyd am brosiect o'r enw County Lines; mae'r prosiect yn ymwneud â delwyr cyffuriau sy'n dod o Loegr i Gymru ac sy'n chwilio am bobl fregus, ac wedyn yn dylanwadu arnynt i adael iddynt ddefnyddio'u fflat i werthu cyffuriau cyn symud i ardal arall.

Grwpiau ar draws y ddinas a'r sir

Cyfarfu aelodau **Panel Ymgynghorol y Tenantiaid** ag Uwch Reolwyr Tai i siarad am sut gallwn wella'r Gwasanaeth Tai i ddarparu gwasanaethau effeithlon, modern sy'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Trafodom y ffyrdd y mae tenantiaid yn defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd, megis wyneb yn wyneb, ar-lein a thros y ffôn.

Cyfarfu **Grŵp Adborth Tŷ Agored** i drafod rhifyn diwethaf y cylchgrawn. Roedd yr adborth gan denantiaid yn gadarnhaol iawn ac roeddent yn teimlo bod yr wybodaeth yn berthnasol i bob oed, yn ddefnyddiol ac wedi'i llunio'n dda. Dywedodd y grŵp mai'r erthyglau mwyaf diddorol oedd y dudalen Llais y Tenant, Cysylltiadau Lleol, Age Cymru a gwybodaeth am wirfoddoli, County Lines, galw diwahoddiad ac ailgylchu.



Datblygu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Cyfranogiad Tenantiaid

Cyfarfu aelodau'r **Grŵp Llywio Tenantiaid a Phanel Ymgynghorol y Tenantiaid** â swyddogion i drafod pa newidiadau y dylid eu gwneud i'r **Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a'r Cynllun Gweithredu**. Caiff y strategaeth ei hadolygu bob tair blynedd

er mwyn gweld pa welliannau y gellir eu gwneud i'r ffordd y mae tenantiaid yn cyfranogi ac yn cael mynediad at wybodaeth. Bydd copi o'r fersiwn derfynol ar gael ar wefan y gwasanaeth tai maes o law. Bydd y Grŵp Llywio Tenantiaid yn parhau i gwrdd bob tri mis i fonitro'r cynnydd.

Gall unrhyw denant neu lesddeiliad fod yn aelod o **Banel Ymgynghorol y Tenantiaid**. Gofynnir i chi roi eich barn am ddatblygiadau newydd yn y gwasanaeth neu newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau. Gellir gwneud hyn trwy holiaduron, trwy e-bost neu neges destun, neu drwy fynd i gyfarfodydd – chi sy'n dewis.



Os hoffech ymuno â Phanel Ymgynghorol y Tenantiaid, neu unrhyw un o'n grwpiau eraill, ffoniwch Alison Winter ar y rhif isod.

Os hoffech ddweud eich dweud a chymryd rhan, ffoniwch Alison Winter, y Swyddog Cyfranogiad ar ☎ **01792 635043** neu e-bostiwch ✉ **alison.winter@abertawe.gov.uk** neu anfonwch neges destun gyda'ch sylwadau ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad i ☎ **07775221453**

Eich sylwadau am gylchgrawn Tŷ Agored

Oes gennych unrhyw sylwadau am y rhifyn hwn o gylchgrawn Tŷ Agored neu am unrhyw un o'r erthyglau yr ydych wedi'u darllen? Os felly, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Gwasanaethau Tai, Dinas a Sir Abertawe, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN, Rhadbost RSCT-JJZH-KLJZ neu e-bostiwch ✉ **tai@abertawe.gov.uk** neu ffoniwch ☎ **01792 635045**

Diolch am eich amser. Rhowch wybod i ni a ydych yn hapus i ni gyhoeddi eich sylwadau yng nghylchgrawn Tŷ Agored.

Newyddion Tai Lloches

Pen-blwydd yn 100 oed

Roedd Lilian Griffiths yn 100 oed ar 13 Mehefin 2019. Dathlodd ei phen-blwydd gyda'i theulu a'i ffrindiau yn Neuadd Gymunedol Maes yr Efail yng Ngorseinon.



Gwnaed hyn yn bosib ar ôl i staff All Wales Ambulance Services Ltd. roi o'u hamser eu hunain i

ddod â hi i lawr o'i fflat llawr cyntaf i'r neuadd gymunedol, a'i dychwelyd yno ar ôl i'r dathlu ddot i ben. Ni chodasant dâl oherwydd ei fod yn achlysur arbennig.

Derbyniodd Lilian garden gan y Frenhines a chyflwynodd y Dirprwy Faer blac iddi. Roedd yn ddiwrnod arbennig iawn i fenyw hyfryd.



Pen-blwydd yn 85 yn Llys Conway

Cafodd Miss Gwyneth Griffiths, sydd wedi byw yng nghyfadeilad Llys Conwy am dros 60 mlynedd, syrpreis hyfryd ar ei phen-blwydd yn 85 oed, â'r cyfan wedi'i drefnu gan y ceidwad a'r tenantiaid. Cafodd gardiau, balwnau a theisen, a mwynhaodd ginio hyfryd yng ngwesty The Towers.

PEN-BLWYDD
HAPUS



Digwyddiad y Pasg Canolfan Galw Heibio Blaen-y-maes

Yn ystod Gwyliau'r Pasg, trefnodd Canolfan Galw Heibio Blaen-y-maes ddigwyddiad i helpu i godi arian ar gyfer y ganolfan. Roedd nifer o stondinau yno'n gwerthu te, coffi a theisennau, yn ogystal â theganau a dillad ail law. Trefnwyd helpa wyau Pasg i'r plant hefyd. Diolch i bawb a oedd yn bresennol.



Hyrwyddo Tai Lloches

Ym mis Ionawr, daeth ceidwad y Tai Lloches i'r Cwadrant yn Abertawe. Nod y digwyddiad oedd hyrwyddo'r gwasanaeth sydd ar gael i bobl hŷn a chwalu'r rhagdybiaethau sydd gan bobl, yn aml, am lety lloches.

Roedd nifer o'r bobl a siaradodd â'r ceidwaid yn y digwyddiad wedi dweud yr un peth - "Dwi ddim yn barod am dai lloches eto!" Fodd bynnag, roedd y ceidwaid ar gael i esbonio bod gan y gwasanaeth tai lloches lawer mwy i'w gynnig na help gydag iechyd a lles yn unig. Mae'n hyrwyddo byw'n



annibynnol ac yn helpu pobl i wneud hynny â chymorth os bydd angen.

Mae gan sawl cyfadeilad glybiau cymdeithasol sy'n trefnu teithiau rheolaidd yn ogystal â gweithgareddau mewn lolfeydd cymunedol. Cafodd y rheiny a oedd yn bresennol yn y digwyddiad wybodaeth am 31 o gyfadeiladau lloches y Cyngor, yn ogystal â thaflen Cwestiynau Cyffredin. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan:

📍 www.abertawe.gov.uk/article/5299/Tai-Lloches

Sut hoffech chi dderbyn Tŷ Agored?

Caiff Tŷ Agored ei ddosbarthu fel copi papur i dros 14,000 o denantiaid a lesddeiliaid. Mae hefyd ar gael mewn fformatau eraill megis CD a phrint bras neu ar ein gwefan.



Rydym bob amser yn edrych am ffyrdd o wella Tŷ Agored ac arbed costau ar yr un pryd. Felly hoffem glywed gennych os yw'n well gennych ddarllen Tŷ Agored ar-lein. Yn lle anfon copi papur, byddwn yn anfon fersiwn e-bost atoch. Yna gallwch ei ddarllen ble bynnag a phryd bynnag y mynnwch, gan ddefnyddio'ch ffôn, eich tabled neu'ch cyfrifiadur personol - mae'n hawdd! Mae hyn yn ei wneud yn fwy hygyrch, yn gynaliadwy ac yn fwy cost-effeithiol gan y byddwn yn lleihau nifer y copiau printiedig.

Os hoffech dderbyn Tŷ Agored ar-lein, bydd rhaid i chi gwblhau ein ffurflen **"cofrestru"**

📄 www.abertawe.gov.uk/ebosttyagored

Bydd angen y manylion canlynol arnom:

- Enw a chyfeiriad
- Cyfeiriad e-bost
- Rhifau ffôn

Cofiwch ddweud wrthym am unrhyw newidiadau i'ch manylion cyswllt.

Os yw'n well gennych dderbyn copi papur o Tŷ Agored nid oes angen i chi wneud unrhyw beth.



Eisiau symud cartref?

Gall HomeSwapper eich helpu!

HomeSwapper yw gwasanaeth cyfnewid cartref mwyaf y DU ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol a gall cyfnewid eich cartref â thenant arall fod yn gyflymach nag aros am drosglwyddiad.

Mae Cyngor Abertawe'n aelod o HomeSwapper a gall tenantiaid Cyngor Abertawe gofrestru ar gyfer y gwasanaeth a'i ddefnyddio yn rhad ac am ddim.

Gallwch gofrestru neu fewngofnodi i'ch cyfrif yn www.homeswapper.co.uk neu gallwch ddefnyddio **ap rhad ac am ddim HomeSwapper** ar eich ffôn neu eich tabled - lawrlwythwch yr ap o'r Apple App Store neu Google Play ar eich ffôn neu eich tabled.



HomeSwapper Matches

Housing Partners Limited · Social

★★★★☆ 429

Parental guidance

Contains Ads

Add to Wishlist

Install

P'un ai a ydych chi'n newydd i HomeSwapper neu a ydych chi'n ei ddefnyddio'n barod, mae'n werth **adolygu'ch hysbyseb i sicrhau eich bod yn gwneud yn fawr o HomeSwapper ac yn rhoi'r **cyfle gorau i chi gael cyfnewid cartref** - dyma restr wirio:**

1. Sicrhewch fod gennych luniau diweddar o'ch tŷ sydd o safon dda yn eich hysbyseb - roedd gan y rhan fwyaf o gyfnewidiadau llwyddiannus o leiaf un llun o'r cartref. Ceisiwch ddangos eich cartref ar ei orau - does neb am weld llun agos o lestri budur yn y sinc neu ddelwedd aneglur o'r ffens. Ceisiwch dynnu eich lluniau pan fydd y tywydd yn braf ac yn heulog fel eu bod yn edrych yn well. Os ydych chi'n bryderus y bydd eich cartref yn cael ei adnabod, tynnwch luniau o'r tu allan neu'r ardd yn unig. Ceisiwch gynnwys cymaint ag y gallwch yn y llun.



2. Mae lanlwytho'ch lluniau ar eich hysbyseb yn hawdd - mae'n haws os ydych chi wedi arbed eich lluniau ar y ddyfais (ffôn, tabled neu gyfrifiadur) rydych chi'n ei defnyddio i fewngofnodi i'ch cyfrif. Mewngofnodwch i'ch cyfrif a chliciwch ar 'My Details', yna dilynwch y camau hawdd. Gallwch ychwanegu at eich lluniau ar eich hysbyseb neu eu haddasu, yn union fel mae gwneud ar Facebook etc. Gallwch roi disgrifiad o'r hyn sydd yn y llun ar gyfer pob un.

3. Sicrhewch fod y disgrifiad o'ch cartref yn fanwl, gyda chymaint o wybodaeth â phosib am ei nodweddion.

4. Rhowch gyngor ymarferol - er enghraifft, yn fras, faint yw biliau'r tŷ bob mis, a oes unrhyw gyfyngiadau o ran cadw anifeiliaid yn y tŷ, cyfrifoldebau'r landlord.

5. Cofiwch gynnwys adolygiad o'r ardal leol a'i buddion.

6. Byddwch yn realistig ac mor onest â phosib.


7. Wrth ystyried yr **hyn rydych yn ei chwilio amdano**, gall llunio rhestr flaenoriaeth o'r hyn sydd wir ei angen arnoch neu'r hyn yr hoffech ei gael ond nid yw'n bwysig fod yn ddefnyddiol. Os oes gennych feysydd cyfyngedig a nodweddion pendant efallai y byddwch yn cael eich paru gydag ychydig o gartrefi'n unig. Drwy beidio â'ch cyfyngu eich hun yn ormodol o ran y lleoedd a'r nodweddion, dylech gael mwy o gartrefi posibl i'w hystyried. Drwy wneud hyn, gallwch ddod o hyd i'ch cartref perffaith mewn ardal nad oeddech yn ei hystyried o'r blaen neu sydd â'r nodweddion yr oeddech wedi'u blaenoriaethu ond efallai heb rywbeth a oedd yn llai pwysig i chi..



8. Rhannwch eich hysbyseb ar dudalen Facebook HomeSwapper yn - www.facebook.com/HomeSwapperOfficial/

9. Cofiwch fewngofnodi i'ch cyfrif yn aml i wirio'r cyfleoedd cyfnewid posib ac i sicrhau bod eich cyfrif yn aros ar waith.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ac erthyglau manwl am sut i ddilyn y camau hyn yn blog.homeswapper.co.uk/blog



Llywodraeth Cymru'n dod â'r Hawl i Brynu i ben yng Nghymru

Ataliwyd Hawl i Brynu pob tenant tai cymdeithasol yn Abertawe er 2015. Roedd disgwyl i'r ataliad bara tan fis Ebrill 2020. Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi dod â'r Hawl i Brynu i ben ledled Cymru er mwyn diogelu a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Mae Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018 wedi bod ar waith yn llawn ar draws Cymru ers 26 Ionawr 2019, sy'n golygu bod hawl pob tenant ar draws Cymru, bellach, wedi'i diddymu'n barhaol.

Ceir mwy o fanylion ar wefan Llywodraeth Cymru: www.gov.wales/topics/housing-and-regeneration/legislation/abolition-of-right-to-buy-and-associated-rights/?skip=1&lang=cy

Newidiadau i reolaeth eiddo Grŵp Tai Coastal yn ardaloedd Glandŵr, y Clâs a Phenllergaer.

Ers nifer o flynyddoedd, mae Gwasanaeth Tai Cyngor Abertawe wedi bod yn gyfrifol am reoli 162 eiddo (a leolir yn ardaloedd Glandŵr, y Clâs a Phenllergaer) y mae Grŵp Tai Coastal yn berchen arnynt.

Daeth y trefniadau presennol i'r Cyngor reoli cartrefi ar ran Grŵp Tai Coastal i ben, fodd bynnag, ar 31 Mawrth 2019. O 1 Ebrill 2019, ymdrinnir â phob tenantiaeth a'r rhenti sy'n gysylltiedig â'r tenantiaethau hyn gan swyddogion tai Grŵp Tai Coastal, a leolir yn 220 Stryd Fawr, Abertawe.

Anfonwyd llythyrau at yr holl denantiaid ym mis Medi 2018 i'w hysbysu am y newid uchod, yn ogystal â'r cyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd. Rhoddwyd gwybodaeth a chymorth i'r holl denantiaid dan sylw cyn y newid, gan gynnwys rhestr o gwestiynau cyffredin a manylion cyswllt cyfredol. Sicrhaodd swyddogion y Cyngor a swyddogion Grŵp Tai Coastal fod popeth wedi'i drosglwyddo'n ddiraffferth, gyda chyn lleied o darfu â phosib ar y gwasanaeth a gafwyd gan y tenantiaid dan sylw. Os bydd gan denantiaid unrhyw sylwadau neu ymholiadau, mae croeso iddynt gysylltu â'i Swyddfa Dai Ranbarthol neu'r Tîm Rhenti neu ffonio Jess McMurchie yng Ngrŵp Tai Coastal ar **01792 479200**.

Yn galw ar denantiaid a lesddeiliaid! Ymunwch â'n grŵp Facebook!

Mae grŵp Facebook bellach ar gael ar gyfer holl denantiaid a lesddeiliaid presennol Cyngor Abertawe!

Os hoffech fod yn rhan o hwn, chwiliwch am 'Swansea Council Housing' ar Facebook a gwnewch gais i ymuno â'r grŵp. Mae'n rhaid i chi roi cyfeiriad eich eiddo tenantiaeth neu lesddaliad cyngor i ni, yn ogystal ag enw'r tenant arweiniol a'ch dewis iaith. Heb yr wybodaeth hon, ni allwn dderbyn eich cais i ymuno.

Rydym yn rhannu llawer o wybodaeth ddefnyddiol ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am faterion tai a digwyddiadau yn eich ardal.



Rheoli stadau

Mae'r canllawiau Rheoli Stadau'n cael eu diweddarau ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu ein bod yn diweddarau'n nodau a'n hamcanion i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau ac amcanion ehangach y Cyngor ac i sicrhau eu bod yn ystyrlon i breswylwyr sy'n byw ar stadau tai cyngor Abertawe.

Cytunwyd ar nod cyffredinol y canllawiau newydd ar gyfer Rheoli Stadau â thenantiaid yng nghyfarfod y Panel Gofalwyr a Rheoli Stadau. Mae'n nodi'r canlynol:

“Nod Canllawiau Rheoli Stadau Tai Abertawe yw sicrhau bod stadau tai'r cyngor yn ddiogel ac yn lân, a chanddynt lle i blant chwarae, lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn a lle nad yw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei oddef”

Mae gwaith yn parhau i bennu camau gweithredu ystyrlon ar gyfer y 5 mlynedd nesaf i sicrhau y cyflawnir y nod hwn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Panel Gofalwyr a Rheoli Stadau i sicrhau bod tenantiaid yn helpu i lunio'r canllawiau hyn a sicrhau ein bod yn deall y problemau amgylcheddol ehangach, ynghyd â'r rhai sy'n gysylltiedig â stadau, sy'n effeithio arnoch.

Os ydych yn credu bod gennych rywbeth i'w ychwanegu at y drafodaeth hon, cymerwch ran. I ymuno â'r Panel Gofalwyr a Rheoli Stadau, ffoniwch Alison Winter, Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid ar **☎ 01792 635043**.

Os hoffech gynnig awgrymiadau ar sut y gallwn gyflawni nod cyffredinol y canllawiau Rheoli Stadau, ond ni allwch fod yn rhan o banel y Tenantiaid, gallwch gyflwyno awgrymiadau drwy eich Swyddfa Dai Ranbarthol.

Caiff diweddariadau eu cynnwys mewn rhifynnau o Dŷ Agored yn y dyfodol ac unwaith y cânt eu gorffen, byddant ar gael mewn Swyddfeydd Tai Rhanbarthol lleol ac ar-lein.

Mwy o dai cyngor newydd ar y gweill

Bydd Cyngor Abertawe'n parhau â'i raglen adeiladu tai newydd trwy ddatblygu 34 o dai cyngor newydd yn ardaloedd Gellifedw a Phenderi. Mae hyn yn dilyn y 18 o gartrefi a gwblhawyd ar Colliers Way.

Bydd gwaith adeiladu'n dechrau ar 2 safle newydd yng ngwanwyn 2019, ac mae peth gwaith cychwynnol eisoes wedi dechrau. Y Cyngor fydd yn adeiladu'r naill safle a'r llall a byddant yn cynnwys technoleg flaengar er mwyn cadw biliau ynni mor isel â phosib. Cafodd y Cyngor gyllid trwy Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru, felly adeiladir y tai hyn ar batrwm 'Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer'. Byddant yn gallu creu a storio ynni trwy ddefnyddio toeon solar a batris.

Gellifedw - Parc yr Helyg

Bwriedir adeiladu 16 o dai ar safle Parc yr Helyg, a fydd yn cynnwys 12 o fflatiau 1 ystafell wely a 4 tŷ 2 ystafell wely.

Daeth Julie James, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Dai a Llywodraeth Leol, i ddigwyddiad unigryw a gynhaliwyd ar gyfer y datblygiad yng Ngellifedw ym mis Ebrill.

Meddai Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe,



"Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i adeiladu tai cyngor y mae mawr angen amdanynt am y tro cyntaf mewn cenhedlaeth.

"Bydd y tai newydd ar gael am rent fforddiadwy a byddant yn hawdd eu haddasu fel y gall tenantiaid hŷn, neu'r rheiny sydd ag anableddau, addasu'r eiddo i ddiwallu eu hanghenion".



Y Cyng. Andrea Lewis, Julie James, y Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol, a'r Cyng. Rob Stewart.

Penderi - Cam 2 Colliers Way

Bwriedir codi 18 o gartrefi ychwanegol yn Colliers

Way fel rhan o gam 2 y datblygiad. Bydd y safle'n cynnwys 8 fflat 1 ystafell wely, 4 tŷ 2 ystafell wely, 4 tŷ 3 ystafell wely a 2 dŷ 4 ystafell wely.



Cynllun arfaethedig Cam 2 Colliers Way

Meddai Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni, "Mae argaeledd y cyllid drwy'r Rhaglen Tai Arloesol wedi galluogi Cyngor Abertawe i ddatblygu cartrefi modern o safon ar gyfer ein tenantiaid yn y ddinas. Adeiladir yr eiddo i lefel effeithlonrwydd ynni 'Safon Abertawe' i helpu tenantiaid newydd i gadw biliau ynni'n isel a bydd y cynllun 'Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer' yn rhoi'r cyfle i ni archwilio ffyrdd o ddefnyddio technoleg fodern a fydd yn galluogi pob cartref i greu ei ynni ei hun".

Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Dai a Llywodraeth Leol, Julie James, yn cyhoeddi £35m o gyllid ar gyfer prosiectau tai arloesol yng Nghymru yn ystod ymweliad diweddar ag Abertawe

Ymwelodd y Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol ag Abertawe i lansio'r rownd nesaf o ariannu ar gyfer y Rhaglen Tai Arloesol. Bwriedir defnyddio'r arian i helpu cynghorau, sefydliadau tai a datblygwyr i adeiladu tai arloesol sy'n effeithlon o ran ynni.

Yn ystod ei hymweliad ag Abertawe, ymwelodd y Gweinidog â Colliers Way ym Mlaen-y-maes er mwyn gweld y tai safonol passivhaus newydd cyntaf i'w darparu gan y Cyngor yn 2018 trwy fanteisio ar gyllid y Rhaglen Tai Arloesol, ac i weld y gwaith sy'n digwydd ar yr ail gam. Meddai'r Gweinidog am yr ymweliad, "Roedd yn gyfle gwych i weld sut mae Cyllid Llywodraeth Cymru'n helpu i gefnogi'r tai fforddiadwy y mae mawr angen amdanynt yn Abertawe ac rwy'n siŵr y croesawyd y tai hyn gan y preswylwyr newydd sy'n byw ynddynt erbyn hyn. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae Cyngor Abertawe'n ei wneud tuag at lwyddiant y Sector Tai yng Nghymru".

"Mae Llywodraeth Cymru'n falch iawn o gefnogi Parc yr Helyg ac estyniad Colliers Way gydag arian o gam dau ein Rhaglen Tai Arloesol.

"Rydym am ddatblygu tai sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac sy'n fforddiadwy i'w cynnal. Mae'r Rhaglen Tai Arloesol yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu'r dechnoleg i gefnogi hyn.

"Rydym am ymestyn y ffiniau o ran math a graddfa'r arloesedd a gefnogir - a dyna a wna Parc yr Helyg a Colliers Way."



24 o dai newydd yn y Clâs

Mae cynllun adeiladu tai newydd arall ar y gorwel ar gyfer Cilgant Hill View a Heol Beacons View yn y Clâs, lle mae darn o dir wedi'i glustnodi'n ardal addas ar gyfer 24 eiddo 3 ystafell wely. Cyflwynir y cais cynllunio yn haf 2019. Bydd hefyd yn safle ar gyfer ysgol gynradd Gymraeg newydd.

2 gartref newydd yn West Cross

Yn ogystal â'r prosiectau adeiladau newydd, bydd y Cyngor hefyd yn adnewyddu un o hen adeiladau Gwasanaethau Cymdeithasol ar Heol Acacia, West Cross. Cyflawnir y cynllun i'w droi'n 2 gartref newydd yn fewnol a bydd y gwaith adeiladu'n dechrau yn hydref 2019 ac fe'i cwblheir erbyn diwedd y flwyddyn.



Cynllun ynni newydd yng Nghraig-cefn-parc - trawsnewid byngalos aneffeithlon iawn yn Gartrefi fel Gorsafoedd Pŵer modern!

Dyma'r cynllun ôl-osod cyntaf o'i fath yng Nghymru a bydd yn cynnwys 6 byngalo yng Nghraig-cefn-parc.

Y cam cyntaf yw gosod deunydd inswleiddio waliau allanol gyda rendro newydd a ffenestri a drysau newydd effeithlon o ran ynni.

Yna, gellir gosod technolegau newydd yn yr eiddo, gan gynnwys pypiau gwres o'r ddaear, toeon â phaneli solar integredig, cyfleusterau storio batris ac unedau Adfer Gwresogi ac Awyru Mecanyddol.

Bydd hyn yn sicrhau mai'r tai hyn yw'r rhai mwyaf modern ac effeithlon o ran ynni, ac mae'n parhau â thema Tai fel Gorsafoedd Pŵer.



Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr holl brosiectau yn y rhifyn nesaf.

Clwb Trefansel i bobl dros 65 oed

Te • Coffi • Bingo • Sgwrs • Cymdeithasu

Am unrhyw ymholiadau, ffoniwch Diane ar

 01792 477820

Y Diweddaraf am Ymweliad Arolygu Swyddfa Archwilio Cymru

Ymwelodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) â'r Gwasanaeth Tai yn ystod 2018 er mwyn adolygu cynlluniau'r Cyngor i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2020 a gweld sut rydym yn cynnwys tenantiaid. Roedd yr arolygiad yn ystyried sut rydym yn darparu'r rhaglen SATC, ein trefniadau monitro a lefelau boddhad tenantiaid.

Ar y cyfan, daeth SAC i'r casgliad bod tenantiaid yn gyffredinol yn fodlon ar y gwaith gwella a bod gan y Cyngor ymagwedd gadarn at fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn mis Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael yn eang a datblygu cynnwys tenantiaid ymhellach. Lluniwyd cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r gwelliannau gall y Cyngor eu rhoi ar waith.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae swyddogion ar draws y gwasanaeth wedi bod yn gweithio i gwblhau'r tasgau ar y cynllun gweithredu. Un o'r camau gweithredu oedd adolygu'r wybodaeth rydym yn ei rhoi i denantiaid ynghylch y gwaith gwella. Edrychodd y tenantiaid ar y grŵp Adeiladau ac Atgyweiriadau ar yr hyn rydym yn ei ddarparu cyn i'r gwaith ddechrau. Roedd y grŵp hefyd wedi adolygu'r wybodaeth ar y lwfans aflonyddwch (a delir i denantiaid am waith mawr) i sicrhau ei bod yn eglur ac yn hawdd ei deall.

Eleni gyda thenantiaid, rydym hefyd wedi adolygu ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2019-2021 er mwyn dangos sut rydym yn bwriadu datblygu cyfranogaeth tenantiaid ymhellach a chynnwys canfyddiadau'r SAC. Yn hwyrach y flwyddyn hon, cynhelir cyfarfod Panel Ymgynghorol y Tenantiaid a fydd yn rhoi'r diweddaraf i denantiaid am gynnydd y SATC a'r Rhaglen Gyfalaf.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y gwaith a gynllunnir ar gyfer eich cartref, mae amserlenni gwaith ar gael i denantiaid ar ein gwe-dudalennau Tai. Caiff gwybodaeth reolaidd ei chynnwys hefyd yng nghylchgrawn Tŷ Agored, am ein Grŵp Facebook newydd ar gyfer Tai Cyngor Abertawe; gallwch gysylltu â'ch Swyddfa Dai Ranbarthol neu os hoffech fynd i un o'n cyfarfodydd tenantiaid, ffoniwch Alison Winter ar ☎ **01792 635043**

**2-4pm bob
dydd Mercher
Mynediad
am £1**



Diweddariad ar Safon Ansawdd Tai Cymru

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud gwelliannau sylweddol i gartrefi a stadau i sicrhau ei fod yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn mis Rhagfyr 2020.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y gwaith a gwblhawyd yn ystod 2018/19.

Elfennau allweddol	Nifer a gwblhawyd yn 2018/19
Toeon	478
Ffenestri	79
Drysau allanol	38
Ceginau	1,631
Ystafelloedd ymolchi	1,664
Systemau gwres canolog	169
Systemau trydanol	806
Synwryddion mwg wedi'u pweru gan y prif gyflenwad	392
Gerddi	935



Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Cyngor roi'r diweddaraif i Lywodraeth Cymru ar ei gynnydd wrth gyflawni'r safon. Mae hyn yn cynnwys pa waith sydd wedi'i wneud ynghyd ag unrhyw waith na all y Cyngor ei gwblhau, y cyfeirir ato fel 'methiant derbyniol'. Mae enghreifftiau'n cynnwys achosion lle nad yw'n bosib gwneud gwaith oherwydd bod y tenant yn sâl neu nid oes modd cael mynediad i'r eiddo neu am fod y tenant eisoes wedi gwneud ei welliannau ei hun.

Ceir mwy o wybodaeth am SATC, gan gynnwys 'methiannau derbyniol' ar ein gwefan: 📧 www.abertawe.gov.uk/satc



Pwls Tenantiaid

Arolwg Tenantiaid Cymru Gyfan

Ynglŷn â TPAS Cymru

Mae TPAS Cymru wedi gweithio ers dros 30 mlynedd fel yr unig Arbenigwyr ar Ymgysylltu â Thenantiaid yng Nghymru. Rydym yn helpu Cymdeithasau Tai, Awdurdodau Lleol a Darparwyr Tai â Chymorth i roi tenantiaid wrth galon eu gwaith.

Rydym yn darparu hyfforddiant i denantiaid a landlordiaid; yn helpu tenantiaid i graffu ar bolisiau eu landlordiaid; yn helpu i lunio gwasanaethau tai a chymorth; ac yn cyfleu barn ein haelodau i Lywodraeth Cymru.

Ynglŷn â Pwls Tenantiaid

Pwls Tenantiaid yw llais y tenantiaid yng Nghymru. Fe'i crëwyd gan TPAS Cymru ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Ein nod yw:

- Darganfod beth sydd bwysicaf i denantiaid
- Rhyddhau arolygon rheolaidd ar bynciau pwysig
- Dylanwadu ar bolisi tai Cymru

Mae canlyniadau ein harolygon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru

a landlordiaid i greu polisi tai sy'n gweithio i denantiaid, ac sy'n gwneud tai yng Nghymru yn fwy diogel a thecach.

Cofrestrwch i ddod yn aelod:  www.tpas.cymru/pwls



Pwls Tenantiaid

A ydych yn denant yng Nghymru?

A ydych chi eisiau i'ch barn ar ystod eang o bynciau gael eu clywed gan:

- Eich landlord?
- Eich Cyngor Lleol?
- Llywodraeth Cymru?
- Pobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau?

Os felly, gallech ddod yn aelod o'r Pwls Tenantiaid

Ac ateb cwestiynau ar faterion pwysig e.e. Diwygio Lles, deddfwriaeth tai newydd ac ati yn y dyfodol.

Rydym yn annog tenantiaid o bob math o dai.

Sut i ymuno â'r Pwls Tenantiaid

Trwy fynd at www.tpas.cymru/ynghylch/pwls-tenantiaid Neu trwy gwblhau'r holiadur papur rhadbost - copïau ar gael trwy ffonio 02920 237303 neu 01492 593046.

Bydd pawb sy'n ymuno â'r Pwls Tenantiaid yn cael eu cynnwys mewn Raffl Fawr fisol i ennill £20 taleb siopa ar y stryd fawr.



CYSTADLEUAETH YR HAF PWLS TENANTIAID

COFRESTRWCH AR WWW.TPAS.CYMRU/PWLS

DEFNYDDIWCY Y COD "SWANSEA19" CYN
30 AWST AM GYFLE I ENNILL GWERTH £200
O DALEBAU SIOPA AR Y STRYD FAWR

Dulliau talu rhent



Mae ffurflenni ar gael ar-lein neu gallwch ofyn i'ch Swyddog Rhent amdanynt drwy ffonio ☎ **601720 / 534094** neu e-bostio ✉ rhenti@abertawe.gov.uk



Bydd angen cerdyn talu electronig arnoch, gofynnwch i'ch Swyddog Rhent, neu ffoniwch ni ar ☎ **601720 / 534094**. Ni fydd taliadau a wneir ar ddydd lau neu ddydd Gwener yn dangos tan yr wythnos ganlynol



Payzone - Gallwch ddefnyddio cerdyn electronig i dalu mewn unrhyw siop sy'n dangos logo payzone. Am restr o'r siopau hyn, ewch i 🌐 www.payzone.co.uk

Drwy gysylltu â'ch Swyddog Rhent

Gallwch dalu drwy ddefnyddio cerdyn debyd, Switch, Solo, Maestro neu gredyd drwy ffonio ☎ **601720 / 534094** neu eich Swyddfa Dai Ranbarthol leol yn ystod oriau swyddfa

Dros y rhyngwrwyd



Ewch i wefan y Cyngor yn 🌐 www.abertawe.gov.uk a chliciwch ar "**Gwnewch e ar-lein**" a "**Talu**". Os cewch unrhyw anawsterau, ffoniwch ☎ **601720 / 534094** am gymorth

Dros y ffôn



Os ydych yn gwybod eich cyfeirnod rhent, gallwch ffonio ein gwasanaeth awtomataidd **Cymraeg** ☎ **0300 456 2775 / Saesneg** ☎ **0300 456 2765** ar unrhyw adeg. (Os nad ydych yn gwybod eich cyfeirnod rhent, ffoniwch ☎ **601720 / 534094**)

Yn eich swyddfa dai leol

Yn y Ganolfan Ddinesig a'r Swyddfeydd Tai Rhanbarthol canlynol: Townhill, Sgeti, West Cross, Blaen-y-maes, Penlan, Canol y Ddinas, Treforys, Eastside (Gorseinon - taliadau â cherdyn yn unig)



Os ydych chi'n derbyn **Credyd Cynhwysol**, caiff eich **Costau Tai** eu talu i chi'n uniongyrchol gan yr **Yr Adran Gwaith a Phensiynau**. Ffoniwch yr **Yr Adran Gwaith a Phensiynau** ar ☎ **0345 600 0723** os nad ydych wedi derbyn eich costau tai

Gwasanaethau cefnogi

Budd-dal Tai

I gyflwyno cais newydd am Fudd-dal Tai, ffoniwch y

Tîm Hawlio ar ☎ 635353 neu e-bostiwch

✉ caisnewyddamfudd-daliadau@abertawe.gov.uk

Er mwyn trafod eich hawliad â Swyddog Budd-dal Tai, ffoniwch ☎ **635353** neu e-bostiwch

✉ budd-daliadau@abertawe.gov.uk

Tîm Rhenti

Os ydych chi'n cael anhawster wrth dalu'ch rhent, cysylltwch

â'r **Tîm Rhenti** drwy ffonio ☎ **01792 534064** neu

07920 560243 ✉ rhenti@abertawe.gov.uk

UCT - Uned Cefnogi Tenantiaid

Dinas a Sir Abertawe sy'n rheoli'r **UCT**, a all gynnig gweithiwr cefnogi i helpu gyda phroblemau ariannol neu unrhyw faterion cefnogi eraill gyda'ch tenantiaeth.

Ffoniwch eich Swyddog Rhent neu'r **Uned Cefnogi Tenantiaid** ar ☎ **774360** os teimlwch fod angen cefnogaeth arnoch

Opsiynau Tai

Cyngor ar arian a dyledion - hefyd, rhoddir cyngor am ddim os yw'ch tenantiaeth mewn perygl. Galwch heibio i 17 Y Stryd Fawr, Abertawe SA1 1LF

☎ **01792 533100** ✉ opsiynautai@abertawe.gov.uk



Cyngor ar Bopeth Abertawe

Ail Lawr, City Gates, 50a Stryd y Gwynt, Abertawe SA1 1EE

☎ **0300 3309 082** 🌐 www.adviceguide.org.uk/wales.htm



Os ydych wedi'ch bygwth â digartrefedd, cynigir cyngor

a chymorth i chi am ddim ☎ **01792 469400**

Llinell Gymorth Cyngor ar Dai ☎ **0845 800 4444**

🌐 www.sheltercymru.org.uk/?lang=cy



Cyngor ar ddyledion gan Stepchange ☎ **0800 138 1111**

🌐 www.stepchange.org



I gael cyngor am sut i ddechrau mewn gwaith

☎ **01792 637112** 🌐 www.workways.wales

✉ workways+@swansea.gov.uk

Mae angen i holl ddinasyddion yr UE sydd am aros yn y DU ar ôl 31 Rhagfyr 2020 wneud cais o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Os ydych yn un o ddinasyddion y DU, byddwch chi ac aelodau'ch teulu'n gallu cyflwyno cais o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Beth yw'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE?
































Bydd y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn caniatáu i chi ac aelodau'ch teulu barhau i fyw, astudio a gweithio yn y DU. Mae'n golygu y byddwch yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer:

- Wasanaethau cyhoeddus megis gofal iechyd ac ysgolion
- Cronfeydd cyhoeddus a phensiynau
- Dinasyddiaeth Brydeinig, os ydych yn bodloni'r gofynion ac am wneud cais amdani.

Pwy all wneud cais?

Gallwch wneud cais os ydych yn un o ddinasyddion yr UE neu'n rhywun nad yw'n un o ddinasyddion yr UE ond sy'n aelod o deulu dinesydd yr UE (gweler y rhestr o wledydd yr UE isod). Mae angen i chi fod yn preswyllo yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020.

Pwy sy'n gymwys?

 Awstria	 Y Ffindir	 Latfia	 Portiwgal
 Gwlad Belg	 Ffrainc	 Liechtenstein	 Rwmania
 Bwlgaria	 Yr Almaen	 Lithwania	 Slofacia
 Croatia	 Gwlad Groeg	 Lwcsembwrg	 Slofenia
 Gweriniaeth Cyprus	 Hwngari	 Malta	 Sbaen
 Y Weriniaeth Tsiec	 Gwlad yr Iâ	 Yr Iseldiroedd	 Sweden
 Denmarc	 Iwerddon	 Norwy	 Y Swistir
 Estonia	 Yr Eidal	 Gwlad Pwyl	

Pryd y gallwch wneud cais?

Gellir gwneud cais o fis Mawrth 2019. **Peidiwch ag oedi!**

Er mwyn sicrhau'ch hawliau, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud cais cyn y dyddiad cau sef mis Rhagfyr 2020.

Sut i wneud cais

Gallwch wneud cais ar-lein drwy gyfrifiadur neu ffôn clyfar.

Mae canllawiau ar gael yma: www.eusettlementscheme.co.uk/how-to-apply

Ble gallaf gael help i wneud cais?

Gallwch anfon cwestiwn ar-lein drwy'r ffurflen gyswllt ar y we-dudalen hon:

📄 www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families/applying-for-settled-status

Neu gallwch gael help dros y ffôn::

Os ydych chi yn y DU: Rhif ffôn: ☎ **0300 123 7379**

Dydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc) 8am i 8pm. Dydd Sadwrn a dydd Sul, 9.30am i 4.30pm

Os ydych y tu allan i'r DU: Rhif ffôn: ☎ **+44 (0)203 080 0010**

Dydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc) 8am i 8pm. Dydd Sadwrn a dydd Sul, 9.30am i 4.30pm

Gallwch gael y cyhoeddiadau diweddaraf a chofrestru ar gyfer newyddion a gwybodaeth am y cynllun ar y wefan hon: 📄 www.eusettlementscheme.co.uk/news-and-updates

Taclo'r Tacle yn gofyn i breswylwyr Abertawe siarad yn ddiennw

Cymru/Wales

CrimeStoppers.

0800 555 111

100% diennw. Bob tro.

100% anonymous. Always.

Mae'r elusen annibynnol Taclo'r Tacle yn cynnal ymgyrch yn Abertawe i gynyddu ymwybyddiaeth o weithgarwch troseddol o'r enw County Lines. County Lines yw pan fydd troseddwr o ddinasoedd mawr fel Lerpwl, Llundain a Birmingham yn ehangu'u rhwydweithiau delio cyffuriau i ardaloedd eraill yn y wlad. Mae'r gweithgaredd hwn yn dod â thrais, ecsbloetiaeth a cham-driniaeth i gymunedau.

Mae Taclo'r Tacle eisiau lleihau effaith rhwydweithiau County Lines yn Abertawe. Caiff plant ac oedolion diamddiffyn eu recriwtio er mwyn cludo arian a cyffuriau ar draws y wlad. Mae hyn yn golygu bod y gwir droseddwr ymhell o'r weithred ac yn llai tebygol o gael eu dal.

Mae'r gangiau'n dueddol o sefydlu sylfaen gyffuriau am gyfnod byr, gan feddiannu cartref person diamddiffyn (gelwir hyn yn 'cuckooing'). Yna, defnyddir oedolion a phlant i weithio fel cludwyr cyffuriau.

Meddai Ella Rabaiotti, Rheolwr Cymru dros Daclo'r Tacle,

"Mae angen cymorth y cyhoedd arnom i darfu ar y rhwydweithiau troseddwr hyn ac i atal y tristwch maent yn ei achosi i'r dioddefwyr. Bydd rhoi gwybod am unrhyw weithgareddau amheus yn gallu diogelu nifer o unigolion sydd wedi'u gorfodi i mewn i'r rhwydweithiau hyn.

Mae'n helusen yn sicrhau bod pawb sy'n cysylltu â ni yn aros yn anhysbys. Bob amser. Cadwyd yr addewid hwn am dros 30 o flynyddoedd. Ni fydd unrhyw un yn gwybod eich bod chi wedi cysylltu â ni, ac efallai bydd eich gwybodaeth yn gwneud gwahaniaeth mawr. Felly, siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei wybod."

Os oes gennych unrhyw wybodaeth am rwydweithiau cyffuriau County Lines, gallwch gysylltu â ni yn **hollol anhysbys** ar ☎ **0800 555 111** neu trwy ein ffurflen anhysbys ar-lein yn 📄 crimestoppers-uk.org.

Byddwch yn Ymwybodol o Sgiamiau

Mae sgiamwyr bob amser yn chwilio am syniadau a dulliau newydd o dwyllo pobl i roi arian ac wrth i dechnoleg fodern ddatblygu, megis y rhyngwyd a chyfryngau cymdeithasol, mae sgiamiau yn dod yn fwy soffistigedig.



Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol o'r canlynol:

- Sgiamiau yn ymwneud â'r loteri neu gystadlaethau
- Sgiamiau yn ymwneud â rhamant
- Sgiamiau gan glirweledwyr
- Sgiamiau gan gatalogau
- Twyll buddsoddiad

Fodd bynnag, cafwyd cynnydd yn nifer y negeseuon testun ac e-byst a anfonir gan gwmnïau amrywiol sy'n dweud wrth ddiodefwyr fod arnynt arian iddynt. Maent fel arfer yn darparu dolen sy'n gofyn am daliad.

Os cewch chi neges debyg, dilëwch hi a pheidiwch â chlicio ar unrhyw ddolenni.

Os oes gennych unrhyw amheuson, cysylltwch â'r cwmni perthnasol neu ffoniwch Cyngor i Ddefnyddwyr ar ☎ **03454040506**

Sut i'ch datblygu hun

- Peidiwch â rhoi eich rhif PIN i unrhyw un.
- Dinistriwch unrhyw wybodaeth bersonol. Sicrhewch eich bod yn rhwygo pob dogfen, hen gardiau credyd a debyd ac unrhyw beth arall

gyda'ch manylion personol arno.

- Ymdriniwch â manylion personol fel y byddech yn ymdrin ag arian. Peidiwch â'u gadael allan i bobl eraill eu gweld.
- Peidiwch ag ymateb i e-byst sbam, hyd yn oed er mwyn eu stopio. Yn aml, mae hyn yn cadarnhau i'r twyllwyr fod y cyfeiriad e-bost yn gweithio. Dilëwch unrhyw e-byst amheuss cyn i chi eu hagor.
- Sicrhewch eich bod wedi gosod y feddalwedd wrthfeirysol ddiweddaraf ar eich cyfrifiadur. **PEIDIWCH** â phrynu unrhyw beth wrth rywun sy'n cysylltu â chi trwy'r e-bost neu dros y ffôn. Ewch i siop gyfrifiaduron ddibynadwy.
- Ni fyddai banciau na sefydliadau ariannol dilys yn gofyn i chi glicio ar ddolen mewn e-bost er mwyn cael mynediad at eich cyfrif.
- Peidiwch â ffonio unrhyw rhif ffôn na rhoi ffydd mewn unrhyw fanylion cyswllt a nodir mewn e-bost sbam.

Dylid rhoi gwybod am unrhyw dwyll i Action Fraud drwy ffonio ☎ **0300 12302040** neu ewch i 🌐 **www.actionfraud.org.uk**

Problemau dyled? Gwasgwch ar y botwm.

Mae mynd i'r afael â'ch dyled yn haws nag a feddylwch.

Bydd y Botwm Panig Dyled yn eich helpu i ymdopi a chael cymorth priodol am ddim.

www.debtpanicswansea.org.uk



Cyfeiriadur Dinas Iach

Adnodd iechyd a lles
cymunedol Abertawe



Mae Cyfeiriadur Dinas Iach Abertawe'n adnodd ar-lein er mwyn i chi chwilio am amrywiaeth eang o sefydliadau a grwpiau sy'n gallu cefnogi iechyd a lles.

Mae gan y Cyfeiriadur Dinas Iach un o'r rhestrau mwyaf cynhwysfawr yn Abertawe ar gyfer grwpiau, clybiau a sefydliadau sy'n gallu cynnig cefnogaeth, addysg ac anogaeth i chi deimlo'n iach ac yn dda. Defnyddiwch y chwiliad i ganfod gwybodaeth am ystod o sefydliadau cefnogi lleol a chenedlaethol.

www.healthycitydirectory.co.uk

Oes angen help arnoch gyda'ch rhent?

Gall y Tîm Rhenti eich helpu chi!

- Ydych chi'n poeni am eich Cyfrif Rhent?
- Fyddech chi'n elwa o gyngor ar Gynhwysiad Ariannol?
- Oes angen help arnoch gyda Chredyd Cynhwysol neu Fudd-dal Tai i helpu i dalu eich rhent?
- Oes angen help arnoch gyda chais am Daliad Tai Dewisol (TTD) i helpu i dalu eich rhent?

Cynhelir Cymorthfeydd Rhenti yn y Swyddfeydd Tai Rhanbarthol canlynol:

- | | | |
|----------------------|--------------|---------------|
| • SDR Blaen-y-maes | Dydd Mawrth | 9 am - 1 pm |
| • SDR Penlan | Dydd Mawrth | 9 am - 12pm |
| • SDR Sgeti | Dydd Mawrth | 1.30pm - 4pm |
| • SDR Townhill | Dydd Mercher | 9am - 3pm |
| • SDR Canol y Ddinas | Dydd Iau | 10am - 12pm |
| • SDR Gorseinon | Dydd Gwener | 9.30am - 12pm |
| • SDR Treforys | Dydd Gwener | 9am - 12pm |

Apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw ac apwyntiadau galw heibio ar gael.

Cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Rhanbarthol i drefnu apwyntiad neu galwch heibio'r Cymhorthfa Rhenti neu Cysylltwch â'r Tîm Rhenti ☎ **534094** ✉ Rhenti@abertawe.gov.uk

Gellir defnyddio cyfrifiaduron personol a'r rhyngwyd am ddim yn Swyddfeydd Tai Rhanbarthol (STRh) Blaen-y-maes, Treforys a Townhill.

Galwch heibio unrhyw un o'r STRh hyn i ddefnyddio'r cyfleusterau ar gyfer materion sy'n ymwneud â thai.

Caffi Dros Dro a Siop dan yr Unto Gorseinon

Mae croeso i bawb ddod i gael te a choffi yng nghaffi cymunedol dros dro a siop dan yr unto Gorseinon ac, os bydd angen cyngor, gwybodaeth neu gefnogaeth arnoch, byddwn yn gwneud ein gorau glas i'w rhoi i chi.

Bob dydd Mercher o 18 Gorffennaf 1pm - 3pm, Yn Nhŷ Newydd

Te Cyngor
Cymorth
am ddim

IECHYD A FFITRWYDD
CYFLOGAETH
CYFFURIAU AC ALCOHOL
BUDD-DALIADAU A
DYLEDION
LLES

CYMUNED
PLISMONA
GWIRFODDOLI
ANABLEDDAU
UNIGRWYDD


TAI
IECHYD MEDDWL
LGBT
CYNRYCHIOLWYR
ETHOLEDIG
GWASANAETHAU
IEUENTID

Lansiad swyddogol
ddydd Mercher 1
Awst 1.00pm

Gwybodaeth: Ronan 07471 145353 / Kelly 07791 832172

Facebook: @gorseinononestopshop E-bost: gorseinononestopshop@gmail.com

Canolfan Gymunedol Tŷ Newydd, 17 Stryd y Gorllewin, Gorseinon



Siop Aildddefnyddio
Trysorau'r Tip
Tip Treasures
Reuse Shop

Nwyddau ail-law o safon ar gael am brisiau rhad!

Oes angen i chi gael gwared ar eitemau cartref nad ydynt yn barod i fynd i'r domen eto? Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar!

Canolfan Ailgylchu Llansamlet, Clôs Ferryboat, Parc Menter Abertawe, SA6 8QN

www.abertawe.gov.uk/siopailddefnyddio

- Dodrefn
- Nwyddau Cartref
- Teledu Sgrîn Fflat
- Nwyddau Trydanol
- DVDs a CDs
- Nwyddau Awyr Agored a Gardd
- Recordiau Ffynl
- Llawer, Llawer Mwy!



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council



NID FAN HYN!



Mae'n amser i BAWB yn Abertawe ailgylchu

O 25 Chwefror 2019 bydd eitemau ailgylchadwy ymyl y ffordd yn cael eu gwahardd rhag bagiau du.



- | | | |
|--|--|--|
| <input checked="" type="checkbox"/> Papur | <input checked="" type="checkbox"/> Poteli a jariau gwyr | <input checked="" type="checkbox"/> Cardbord |
| <input checked="" type="checkbox"/> Cerdyn | <input checked="" type="checkbox"/> Poteli plastig | <input checked="" type="checkbox"/> Caniau a thuniau |
| <input checked="" type="checkbox"/> Gwastraff bwyd | <input checked="" type="checkbox"/> Potiau a thybiau plastig | <input checked="" type="checkbox"/> Gwastraff gardd |

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.abertawe.gov.uk/nidfanhyn

 @recycle4swansea
 Recycle For Swansea

 Abertawe yn ailgylchu
 Swansea recycles

 Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

**WANTED
 IN
 PINK
 BAGS**



PEIDIWCH Â CHYNNWYS... caeadau haenen blastig, bagiau, a phecynnau creision

www.swansea.gov.uk/pinkbag

www.abertawe.gov.uk/sachaupinc

**YN EISIAU
 MEWN
 SACHAU
 PINC**



Casgliadau Ailgylchu a S



Papur a cherdyn gyda'i gilydd

SACHAU AR WAHÂN



Metel, gwydr a ffoil gyda'i gilydd

Wythnos
Werdd



Dylech wacáu a gwastadu blychau cardbord rhychiog a'u gosod o dan eich sachau



Gwastraff gardd

Wythnos
Binc



Photeli plastig, potiau, tybiau a hambyrddau



Gwastraff na ellir ei ailgylchu'n unig

Bob
Wythnos



Gwastraff bwyd

 @recycle4swansea

 Recycle For Swansea

 www.abertawe.gov.uk



I ddod o hyd i'ch diwrnod casglu ac i lawrlwytho calendr ailgylchu ar gyfer eich cyfeiriad, ewch i www.abertawe.gov.uk/chwilioailgylchu



Rhowch y sachau a'r biniau allan **ar ôl** 7pm y noson cyn y diwrnod casgliad a **chyn** 7am ar fore'r casgliad.



Gallwch gael mwy o sachau ailgylchu a biniau bwyd o llyfrgelloedd a swyddfeydd dai. Am restr lawn o leoliadau, ewch i www.abertawe.gov.uk/mwyosachau



Nid fan hyn! Mae sachau du ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu'n unig. Ailgylchwch yr holl ddeunyddiau a dderbynnir yn y bagiau a'r biniau eraill a ddarperir fel a ddangosir er mwyn eu cadw allan o safleoedd tirlenwi.



Os oes **sticer ar eich sach** ac nid yw wedi'i chasglu, rydych wedi gwneud camgymeriad. Symudwch y sach o ymyl y ffordd a'i storio/didoli ar gyfer y casgliad nesaf neu gallech dderbyn hysbysiad o dâl cosb.



Gall **eitemau eraill** gael eu hailgylchu yn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref. Am restr lawn o leoliadau a eitemau a dderbynnir, ewch i www.abertawe.gov.uk/canolfannauailgylchu



Mae'r cyngor yn cynnig gwasanaeth casglu y telir amdano ar gyfer eitemau cartref 'swmpus' megis dodrefn. Am fwy o wybodaeth ewch i www.abertawe.gov.uk/gwastraffswmpus

 **Abertawe yn ailgylchu**
Swansea recycles

 Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Tŷ T.O.P.I.C. Canolfan Wybodaeth i Bobl Hŷn

- ✓ Gweithgareddau cymdeithasol
- ✓ Boreau coffi
- ✓ Bingo
- ✓ Dosbarthiadau
- ✓ Clwb gemau
- ✓ Ciniawau
- ✓ Bowls
- ✓ A llawer mwy...



- Ydych chi'n unig?
- Hoffech chi gwrdd â phobl newydd
- Does dim rhaid eich bod yn byw yn Townhill

Mae croeso cynnes yn eich disgwyl!

Gallwch ddod o hyd i ni yn:
56-58 Cilgant Teilo Mayhill

Ar agor o ddydd
Llun i ddydd Gwener
10.00am - 4.00pm



Allwn ni eich helpu?

Oes anhawster gennych ddarllen print mân neu efallai eich bod yn teimlo eich bod yn boddi dan swm yr wybodaeth rydych yn ei gweld ar lythrau, tafleni a ffurflenni cais?

Os felly y mae hi arnoch, gallwn ddarparu gwybodaeth i chi ar ffyrdd eraill. Gallwn anfon gwybodaeth atoch mewn print bras, Braille neu ar gryno ddisg neu dâp. Os ydych yn siaradwr Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, gallwn hefyd ddarparu gwybodaeth i chi yn Gymraeg.

I dderbyn gwybodaeth mewn fformat arall, rhowch wybod i'r staff yn eich Swyddfa Ranbarthol neu cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid drwy ffonio ☎ **01792 635045** neu e-bostio ✉ tai@abertawe.gov.uk

Os oes angen help arnoch i lenwi ffurflen rydym wedi'i rhoi i chi, gofynnwch i'r staff yn eich Swyddfa Ranbarthol am gymorth.

Mae ystafell gyfweild breifat ar gael os nad ydych yn dymuno gwneud hyn yn y dderbynfa. Mae gan ein holl Swyddfeydd Tai Rhanbarthol systemau dolen glyw, chwyddwydrau llaw, arweiniadau llofnod, pinnau gafael mawr a chymhorthion eraill sydd ar gael i'w defnyddio wrth y ddesg yn y dderbynfa neu yn yr ystafell gyfweild.

Mae'n bwysig i ni eich bod yn gallu cael mynediad at yr holl wasanaethau sydd ar gael i chi gan y Gwasanaeth Tai; felly os hoffech i ni wneud pethau'n wahanol i chi, gofynnwch a byddwn yn hapus i wneud hynny.

